# Pwyllgor Adolygu Gweithredol
## 10 Rhagfyr 2025

**Yn bresennol:** Dr R Plummer (Cadeirydd)
Y Cynghorydd S Alderman, y Cynghorydd M Bowen, y Cynghorydd T Evans, y Cynghorydd S Hancock MBE, Mrs S Hoss, Mr GA Jones a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol** : Arwel Evans (Swyddog Cyswllt Cadwraeth Ffermio), Clare Flynn (Swyddog Cadwraeth), Julie Garlick (Swyddog Cadwraeth), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Sarah Mellor (Arweinydd Tîm Cadwraeth), James Parkin (Cyfarwyddwr Adfer Byd Natur a Thwristiaeth), Matt Tebbutt (Cydlynydd Prosiect INNS), Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth), a Michelle Webber (Pennaeth Adfer Byd Natur).

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 12:30pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**.
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd A Tinley.

**2. Datgan buddiannau**
Datganodd Dr R Plummer fuddiant cyffredinol fel Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro. Gwnaeth y Cynghorydd S Alderman fuddiant cyffredinol fel Aelod a chyn Gadeirydd Sirol yr NFU.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2025 i’w cadarnhau a’u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd S Alderman, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2025.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**
Nodwyd nad oedd unrhyw gamau gweithredu i'w dwyn gerbron.

**Nodwyd.**

[Ymunodd Mr G Jones â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.]

**5. Archwiliad Dwfn/ Hunanasesiad ar yr Amcanion Llesiant: Cadwraeth**
Cyflwynodd y Pennaeth Adfer Byd Natur adroddiad ar archwiliad dwfn a hunanasesiad ar yr amcan llesiant Cadwraeth. Dywedwyd bod yr amcan Cadwraeth yn canolbwyntio ar gyflawni adfer byd natur a chysylltedd ar raddfa fawr, gan gyfrannu at ddiogelu 30% o dir a moroedd y Parc Cenedlaethol ar gyfer natur erbyn 2030. Roedd yr adroddiad yn cynnwys

manylion y canlyniadau ar yr amcan, yr asesiad o’r cynnydd, yr ystadegau perthnasol, astudiaethau achos, yr heriau a’r cyfleoedd, manylion y cyfraniadau at ganlyniadau trawsbynciol, ac asesiad cyffredinol a'r camau nesaf.

Cafwyd trafodaeth ynghylch yr heriau a wynebodd y tîm, a’r gwersi allweddol a ddysgwyd o’r flwyddyn.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhawyd, er bod ystadegau ar gael i ddangos effaith gwaith y tîm, bod Adfer Byd Natur yn faes anodd i'w fesur yn ôl ffigurau. Cadarnhaodd y Swyddog bod y tîm wedi comisiynu astudiaeth i werthuso maint y tir o fewn y Parc Cenedlaethol oedd wedi'i reoli ar gyfer byd natur i ategu camau’r Awdurdod tuag at y targed o 30 x 30, ac i helpu i lywio a chyflawni Strategaeth Adfer Byd Natur y Parc dros gyfnod o 10 mlynedd. Eglurodd y Swyddog y byddai'r astudiaeth a'r strategaeth yn ddau gyfrwng pwysig i’r tîm allu mesur cynnydd y gwaith. Cadarnhaodd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth bod newidiadau hefyd wedi'u gwneud ar lefel genedlaethol fyddai'n llywio'r dangosyddion a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod.

**Nodwyd.**

[Ymunodd y Cynghorydd S Hancock â'r cyfarfod yr adeg hon.]

**6. Y Prosiect Cysylltu'r Arfordir**

Roedd y Swyddog Cadwraeth wedi rhoi cyflwyniad oedd yn cynnwys gwybodaeth, gwerthusiad ac adborth ar Gynllun yr Awdurdod Cysylltu'r Arfordir a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf 2023 a Mawrth 2025. Dywedwyd bod y Cynllun Cysylltu'r Arfordir wedi'i ariannu gan Dirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru oedd yn gynllun rheoli tir i roi cymorth, cyngor a chyllid wedi'u teilwra ar gyfer bioamrywiaeth. Ychwanegwyd bod y prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â ffermwyr a thirfeddianwyr lleol i greu cyfoeth o gyfleoedd i adfer byd natur yn y Parc.

Rhoddodd y Swyddog gyflwyniad ychwanegol oedd yn amlinellu nodau’r gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, amserlen y prosiect, manylion y safleoedd sy’n rhan o’r prosiect, ystadegau perthnasol, a ffocws y cam nesaf o’r cyllid.

Holodd Aelod a oedd unrhyw dystiolaeth bod tirfeddianwyr yn rhannu arferion gorau o fewn eu rhwydwaith ffermio. Ymatebodd y Swyddog bod y tîm, yn y cam nesaf o'r gwaith, yn anelu at gynyddu eu lefel o ymgysylltu â thirfeddianwyr, ac y byddent yn edrych i ddod â thirfeddianwyr ynghyd drwy ddatblygu cylchlythyr fyddai'n hyrwyddo gwaith yr Awdurdod ochr yn ochr â digwyddiadau perthnasol i gynyddu cysylltiadau ac ymwybyddiaeth. Ychwanegodd y Swyddog bod adborth wedi dod i law y byddai rhwydwaith o dirfeddianwyr yn cael ei groesawu.

**Nodwyd.**

[Ymunodd Mrs S Hoss â'r cyfarfod yr adeg hon.]

**7. Y Prosiect Pwyth mewn Pryd**

Roedd Cydlynydd y Prosiect Rhywogaethau Estron Goresgynnol wedi cyflwyno adroddiad oedd yn rhoi gwybodaeth, gwerthusiad ac adborth i'r Aelodau ar Rwydweithiau Natur yr Awdurdod (Rownd 2) y Prosiect Pwyth Mewn Pryd a gyflawnwyd rhwng Mehefin 2023 a Mawrth 2025. Dywedwyd bod y prosiect hwn yn ategu gwaith parhaus yr Awdurdod o reoli planhigion estron goresgynnol yn y Parc, gan ganolbwyntio ar Jac y Neidiwr a Chlymog Japan.

Hefyd roedd y Swyddog wedi rhoi cyflwyniad oedd yn amlinellu'r diffiniadau perthnasol, manylion y rhywogaethau a dargedir yn y gwaith, ystadegau ar oriau gwaith y gwirfoddolwyr, a gwahanol enghreifftiau o'r gwaith a gyflawnwyd.

Canmolodd yr Aelodau y tîm a'r gwirfoddolwyr am eu gwaith, a gofyn am fanylion pellach ynghylch camau nesaf y prosiect. Cadarnhaodd y Swyddog bod cyllid am 2 flynedd arall wedi'i sicrhau ar gyfer y prosiect gyda'r nod o ymestyn ardaloedd y gwaith. O ran monitro, cadarnhawyd bod yr Awdurdod wedi mapio'r rhywogaethau estron goresgynnol ar draws y Parc gyda chymorth aelodau'r cyhoedd oedd yn rhoi gwybod am achosion newydd o'r planhigion.

**Nodwyd.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11:53 a 12:00.]

[Ymunodd y Cynghorydd C Williams â'r cyfarfod yr adeg hon. Gadawodd y Cynghorydd S Alderman a Mrs S Hoss y cyfarfod yr adeg hon.]

**8. Adroddiad ar y Perfformiad Amcanion Llesiant**

Roedd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth wedi cyflwyno Adroddiad ar y Perfformiad Amcanion Llesiant oedd yn rhoi manylion ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y dangosyddion/ prosiectau/ rhaglenni gwaith blaenoriaeth am y cyfnod yn dod i ben ar 30 Medi 2025 ac yn cynnwys ystadegau chwarter 2 ar rai mesurau. Roedd yr adroddiad perfformiad yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) fel y'u nodir yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod 2023/24 – 2026/27.

Nododd yr Aelodau bod sgôr Coch Ambr Gwyrdd y mwyafrif o'r mesurau yn wyrdd, a gofynnwyd a oedd y mesurau yn ddigon uchelgeisiol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod nifer y sgoriau gwyrdd yn amlygu gwaith caled y tîm a'r newid cadarnhaol yr oedd yr Awdurdod wedi'i wneud, fodd bynnag, roedd yn croesawu sylwadau'r Aelodau ar y mesurau.

Awgrymodd Aelod y dylid cynnwys rhagor o fanylion ynghylch gwefru cerbydau trydan a chadeiriau olwyn traeth yn yr adroddiad yn y dyfodol, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

**Nodwyd.**